

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Cynllunio
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	6 Medi 2023
<b>Aelod Arweiniol/Swyddog</b>	Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Paul Griffin
<b>Teitl</b>	Cais Rhif: 47/2020/0593. Datblygu tir i greu parc gwyliau, yn cynnwys trawsnewid y clwb presennol yn adeilad ar gyfer derbynfa, codi clwb newydd, adeilad byncws, 7 uned pod gwyliau, 23 caban gwyliau dwy ystafell wely, 7 caban gwyliau tair ystafell wely, a 7 caban gwyliau pedair ystafell wely. Gwaith i'r fynedfa bresennol, ffurfio llwybrau mewnol, 2 bwll dŵr bywyd gwyllt, maes parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig. Hen Glwb Rygbi'r Rhyl, Ffordd Waen, Rhuddlan.

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Diben yr adroddiad hwn yw rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio am y cais cynllunio uchod, y bu i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad yn ei gylch yn ddiweddar.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Rhoi gwybod i'r aelodau am y penderfyniad, a thynnu sylw at y materion oedd ynghlwm â'r penderfyniad cynllunio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

### Ceisio penderfyniad.

- 3.1. Bod yr Aelodau'n nodi'r penderfyniad a'r materion a godwyd.

3.2. Mae adroddiad yr Arolygydd a llythyr penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghlwm yn Atodiadau A a B.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Gwybodaeth gefndir

- 4.1. Bydd Aelodau'n cofio y cyfeiriwyd at gais cynllunio rhif: 47/2020/0593 yn wreiddiol yng nghyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2021. Argymhelliad y Swyddog oedd cyflwyno caniatâd cynllunio, yn amodol ar orfodi amodau a llunio cytundeb cyfreithiol i sicrhau cyfraniad at ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio.
- 4.2. Ar 13 Ebrill 2021, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Gyfarwyddyd Erthygl 18 yn dilyn cais i alw'r cais cynllunio i mewn. Roedd y Cyfarwyddyd Erthygl 18 yn gofyn i'r Cyngor beidio â chyflwyno caniatâd cynllunio ar gyfer y cais, er mwyn rhoi amser i Weinidogion ystyried p'un a ddylid atgyfeirio'r cais i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt wneud penderfyniad yn ei gylch.
- 4.3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Ebrill 2021, penderfynodd Aelodau y dylid gohirio'r cais i gyfarfod yn y dyfodol unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud penderfyniad ar y cais galw i mewn.
- 4.4. Ar 24 Medi 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru lythyr penderfyniad galw i mewn yn cynghori'r Gweinidog Newid Hinsawdd y dylai Gweinidogion Cymru benderfynu ar y cais cynllunio.
- 4.5. Yna, cafodd y cais ei atgyfeirio'n ffurfiol gan y Cyngor i Weinidogion Cymru, ynghyd â datganiad ategol a gytunwyd gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, ei bod yn debygol y byddai'r pwyllgor wedi penderfynu gwrthod cyflwyno caniatâd cynllunio, pe na bai'r cais wedi cael ei alw i mewn.
- 4.6. Ar 17 Awst 2023, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru eu bod wedi penderfynu gwrthod rhoi caniatâd cynllunio. Mae copi o'r penderfyniad hwnnw ac adroddiad yr arolygydd ynghlwm ar gyfer Aelodau.
- 4.7. Dyma grynodedeb o'r penderfyniad:

“Roedd Gweinidogion Cymru yn cytuno ag asesiad yr arolygydd, y byddai'r parc gwyliau yn creu datblygiad mawr a lefelau uchel o weithgarwch yng nghefn

gwlad agored, megis ystâd breswyl fechan, yn groes i reolyddion polisi llym. Yn ogystal, oherwydd graddfa a defnydd y datblygiad, byddai'n niweidio cymeriad gwledig ac edrychiad yr ardal gyfagos. Felly, nid yw'r cynllun yn gymwys am gefnogaeth polisi lleol a chenedlaethol ar gyfer twristiaeth a'r economi wledig, gan ei bod yn ofynnol i gynigion fod o natur a maint priodol i gyd-fynd â'u lleoliad. Ymhellach, byddai lleoliad gwledig y safle, yn ogystal â mynediad anaddas ac anniogel heb ddefnyddio car, yn cynyddu'r defnydd o gerbydau preifat, ac nid oedd y lleoliad yn un cynaliadwy. Roeddent hefyd o'r farn bod colli tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn barhaol, heb gyfiawnhad, yn mynd yn groes i bolisi, gan fod achos yr ymgeisydd yn pwysleisio'r buddion i dwristiaeth a'r economi leol yn hytrach na'r prif angen am y datblygiad.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Amherthnasol

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Dim.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1. Amherthnasol.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Amherthnasol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Amherthnasol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Amherthnasol.

# 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol.